

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2022**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg



Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr yn ysgol ofalgar, hapus a chartrefol ble mae'r disgyblion yn gwrtais ac yn barchus at ei gilydd, y staff ac ymwelwyr. Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn arbennig o dda ac maent yn ymddwyn yn gadarnhaol ac aeddfed at eraill. Maent yn teimlo'n falch o'u hysgol a'i chymuned. Mae gan yr holl staff berthynas waith effeithiol â'r disgyblion sy'n hyrwyddo agweddau da at ddysgu a lles, yn ogystal â meithrin awyrgylch cefnogol a chynhwysol. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymateb yn bwrpasol i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol ac yn ymateb i'w hanghenion yn dda.





Mae'r Gymraeg yn newydd i lawer o ddisgyblion wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r plant ieuengaf yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llafar yn ystod eu blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol. Gydag anogaeth oedolion, mae llawer yn datblygu eu medrau i gyfathrebu'n gynyddol hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn datblygu eu medrau rhifedd a digidol yn bwrpasol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n sicrhau bod pob disgybl yn cael eu herio'n llawn nac yn cynnig cyfleoedd buddiol i gymhwyso ac adeiladu ar eu medrau yn ddigon effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gyflenwad priodol o arweinwyr sy'n cefnogi athrawon a chynorthwywyr yn gadarn. Maent yn cyfrannu'n werthfawr at sefydlu ethos tîm cryf ac ymdeimlad o berthyn ymysg y staff. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r pennaeth a'r staff. Er hyn, nid yw arweinwyr bob tro'n adnabod cyfleoedd buddiol i rannu arfer dda ar draws yr ysgol neu i drefnu cefnogaeth i gysoni a gwella'r addysgu a'r ddarpariaeth. Yn ogystal, nid ydynt bob tro'n gweithredu'n ddigon strategol er mwyn gwella'u dealltwriaeth o'r hyn sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a beth sydd angen parhau i wella. Yn gyffredinol, nid yw trefniadau diogelu'r ysgol yn ddigon cydlynus na chadarn.

# Argymhellion

A1 Gwella a chryfhau trefniadau amddiffyn plant a diogelu

A2 Cryfhau gallu arweinwyr i weithredu'n fwy strategol wrth arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a rhoi'r gwelliannau angenrheidiol ar waith

A3 Sicrhau bod yr addysgu yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer bob disgybl i gyflawni hyd eithaf eu gallu

A4 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion datblygu a chymhwyso eu medrau ar draws y meysydd dysgu

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 424 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 306 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 60 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 15.4% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysg arbennig yn y sector Cynradd yw 22.2%) | 21.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 21.6% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Ionawr 2014 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 10/05/2016 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/11/2022